

**DATBLYGU YSGOLION FEL  
SEFYDLIADAU SY’N DYSGU YNG  
NGHYMRU**



LLAWLYFR PRIF BWYNTIAU

# CYMRU

## BETH YW CYMORTH I WEITHREDU POLISIÂU ADDYSG Y SEFYDLIAD AR GYFER CYDWEITHREDIAD A DATBLYGIAD ECONOMAIDD (SCDE)?

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o ymdrechion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (SCDE) i gynorthwyo gwledydd i gynllunio polisiâu addysg a'u rhoi ar waith yn effeithiol, gan seilio'r ymdrechion hyn ar dystiolaeth, ac offer a dulliau gweithredu amlddisgyblaethol, megis digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Cymorth i Weithredu Polisiâu Addysg yn darparu cymorth wedi'i deilwra i wledydd ac awdurdodaethau i'w

galluogi i wneud gwelliannau cynaliadwy mewn dysgu ac addysgu, drwy ddefnyddio sylfaen wybodaeth ddadansoddol SCDE a'i rwydwaith o arbenigwyr rhyngwladol.

Yn ymarferol, mae cymorth fel arfer yn dechrau ag asesiad cychwynnol er mwyn deall cydestun y polisiâu. Yn dilyn hynny, bydd SCDE yn ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg aliweddol yn y wlad i helpu i ffurfio neu adolygu'r broses o ddatblygu strategaethau gweithredu.

## PAM ASESIAD O YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU YNG NGHYMRU?

Mae Cymru wedi ymrwymo i ddarparu addysg gynhwysol o safon uchel i'w holl ddinasyddion, felly yn 2011 dechreuodd broses ddiwygio helaeth i wella ysgolion. Mae'r broses ddiwygio hon wedi mynd yn fwy cynhwysfawr ac mae'n canolbwyntio ar y gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif.


Mae Cymru'n gweld datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu (YSD) (gweler Blwch 1) fel un o'r prif ffyrdd o wireddu'r cwricwlwm newydd. Gall YSD newid ac addasu'n gyson i amgylcheddau ac amgylchiadau newydd wrth i'w haelodau, yn unigol a chyda'i gilydd, ddysgu sut i wireddu eu gwledigaeth.

Er mwyn dod â chwricwlwm newydd Cymru yn fyw, credir ei bod yn hanfodol bod llawer o athrawon, gweithwyr cymorth dysgu, arweinwyr ysgolion a phobl eraill sy'n ymwneud ag ysgolion yn cydweithio, yn dysgu ar y cyd, yn ehangu eu sgiliau ac yn dysgu sgiliau newydd.

Mae'r adroddiad hwn, [Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru](#), yn cynorthwyo Cymru i wireddu'r amcan hwn. Mae'n asesu i ba raddau y mae ysgolion yng Nghymru wedi datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, ac yn canfod meysydd i'w gwella eto ar lefel ysgolion ac ar lefel y system.

**BLWCH 1. Y model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu ar gyfer Cymru**

Mae'r model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu (YSD) ar gyfer Cymru yn sicrhau bod arweinwyr ysgolion, athrawon, staff cymorth, rhieni, llunwyr polisïau (lleol) a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgolion yn canolbwyntio ar wireddu saith dimensiwn yn eu hysgolion. Mae'r saith dimensiwn hyn, sy'n seiliedig ar weithredu, a'r elfennau sy'n eu tanategu'n dangos i ysgolion beth yw'r uchelgais yn ogystal â'r prosesau y byddant yn eu cyflawni wrth eu trawsnewid eu hunain yn sefydliadau sy'n dysgu.

**Ffigur 1. Y model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu ar gyfer Cymru**

Mae gwireddu “pedwar diben” y cwricwlwm ysgol newydd yn ganolog i'r model. Mae'r rhain yn cyfeirio at ddatblygu plant a phobl ifanc i fod yn “ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus ac yn unigolion iach a hyderus”.

Cynlluniwyd model YSD Cymru drwy broses o adeiladu ar y cyd. Cafodd ei ddatblygu gan gynrychiolwyr o 24 o Ysgolion Arloesi, y consortia rhanbarthol (h.y. gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol), Estyn (h.y. Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru), Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac SCDE. Dylanwadwyd ar y gwaith datblygu drwy gyfres o weithdai a chyfarfodydd a hwyluswyd gan SCDE rhwng Tachwedd 2016 a Gorffennaf 2017. Canlyniad yr ymdrech gydweithredol hon yw model YSD Cymru a ryddhawyd yn Nhachwedd 2017.

*Ffynhonnell:* Llywodraeth Cymru (2017<sup>[31]</sup>), “Ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau sy'n dysgu”, <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/schools-in-wales-as-learning-organisations/?lang=cy>.

## TROSOLWG O’R ASESIAD: METHODOLEG A STRWYTHUR

Mae’r asesiad hwn wedi defnyddio cynllun astudiaeth dulliau cymysg, a oedd yn cynnwys nifer fawr o gyfweiliadau gyda staff ysgolion, llunwyr polisïau a rhanddeiliaid eraill, ymchwil desg i ddogfennau a data, ac arolwg wedi’i gynllunio’n bwrpasol, sef yr [Arolwg o Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu](#). Gofynnwyd i staff o hapsampl o 571 o ysgolion gwblhau’r arolwg YSD ar-lein. Cwblhawyd yr arolwg gan 1 703 o staff ysgolion – 336 o arweinwyr ysgolion, 811 o athrawon a 382 o weithwyr cymorth dysgu – o 178 o wahanol ysgolion.

Mae’r asesiad hefyd yn rhan o gymorth ehangach sydd wedi bod yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru gan SCDE er Medi 2016, sef Cymorth i Weithredu Polisïau Addysg. Mae’n cynnwys:

- asesiad cyflym o bolisi;
- cyngor strategol yn ystod cyfarfodydd polisi a digwyddiadau eraill a;
- cymorth gweithredu wedi’i deilwra er mwyn datblygu YSD fel rhan o’r agenda ehangach i ddiwygio’r cwrwllwm.

Arweiniodd y cydweithio eang hwn at broses lwyddiannus o gyfnewid barn a gwybodaeth sydd wedi cyfoethogi’r

Mae’r astudiaeth wedi’i threfnu ar sail fframwaith dadansoddi sydd i’w weld yn Ffigur 2 a defnyddir y fframwaith hwn i lywio’r darllenwr drwy’r llawlyfr prif bwyntiau hwn:


- Mae Rhan I, [Asesiad o Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu](#), yn disgrifio ac yn dadansoddi’r ysgol fel sefydliad sy’n dysgu yng Nghymru, a hynny yn ei chyddestun, er mwyn canfod i ba raddau y mae’r nodweddion allweddol eisoes yn bodoli mewn ysgolion yng Nghymru.
- Rhan II, [Asesiad ar lefel y System o’r Amodau ar gyfer Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu](#). Mae’r rhan hon yn dechrau drwy ystyried pa bolisïau ar lefel y system sy’n galluogi neu’n rhwystro ysgolion rhag datblygu fel sefydliadau sy’n dysgu, ac yn cynnig argymhellion pendant er mwyn cryfhau polisïau, cydlynu polisïau’n well a chymryd camau pellach. Mae’n mynd ymlaen i ystyried sut gall Cymru sicrhau bod ei pholisi YSD yn cael ei roi ar waith yn effeithiol – neu fel y cyfeirir ato’n aml yng Nghymru, yn cael ei “wireddu” – ac yn cynnig pwyntiau i feddwl amdanynt ac argymhellion.


**Ffigur 2. Fframwaith dadansoddi ar gyfer yr asesiad hwn**



## ASESIAD O YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU: Y PRIF GANFYDDIADAU


- **Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o ysgolion Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu ...** Mae data'r arolwg o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD) yn awgrymu bod ychydig llai na chwech o bob deg ysgol (58%) yn ein sampl o ysgolion wedi rhoi pump i saith o ddimensiynau'r sefydliad sy'n dysgu ar waith.
- **... fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r ysgolion yn dal i fod yn bell o wireddu'r amcan hwn.** Mae'n ymddangos bod 42% o'r ysgolion wedi rhoi pedwar neu lai o'r saith dimensiwn YSD ar waith, a bod 30% o'r ysgolion wedi gwireddu dau neu lai.
- **Mae ysgolion yn ymrwymo i'r saith dimensiwn sy'n ffurfio model YSD Cymru ar wahanol raddau.** Mae'n ymddangos bod ysgolion yn gwneud cynnydd da ar y dimensiynau "hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff" ac "ehangu defnydd o systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth". Mae ffynonellau data amrywiol yn awgrymu bod dau ddimensiwn yn llawer llai datblygedig mewn ysgolion yng Nghymru: "datblygu gweledigaeth a rennir sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu" a "sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio". Gallai llawer o ysgolion wneud mwy hefyd i "ddysgu drwy'r amgylchedd allanol a'r system ddysgu ehangach".
- **Mae ysgolion uwchradd yn wynebu mwy o heriau o ran datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu.** Credir bod y strwythur mwy adrannol, arferion arweinwyr a thuedd llawer o athrawon i gyfyngu cydweithio i feysydd pwnc ac adrannau yn ffactorau yn hyn o beth.
- **Mae angen bod yn fwy beirniadol a myfyrio mwy er mwyn i ddysgu dwfn a chynnydd parhaus ddigwydd.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i staff ysgolion fod yn fwy beirniadol o'u perfformiad eu hunain, a pherfformiad eu hysgol, er mwyn i ddysgu dwfn a chynnydd parhaus ddigwydd. Mae'n bosibl bod y trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd sy'n rhoi cymaint yn y fantol wedi amharu ar barodrwydd pobl, a hyd yn oed ar eu gallu mewn rhai achosion, i fyfyrion feirniadol ar eu hymddygiad eu hunain, ymddygiad eu cymheiriaid a threfniadaeth yr ysgol yn gyffredinol.



**Ffigur 3. Ysgolion yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru, 2017**

*Sylwer:* Dadansoddir data ar lefel ysgolion. Cynhyrchwyd eitemau'r arolwg YSD ar ffurf graddfa bum pwynt Likert: 1) anghytuno'n gryf; 2) anghytuno; 3) niwtral 4) cytuno; a 5) cytuno'n gryf. Diffiniwyd sgôr ysgol gyfartalog o 4 neu fwy ar draws eitemau'r arolwg sy'n ffurfio un dimensiwn fel y trothwy sy'n dangos pryd mae ysgol wedi rhoi'r dimensiwn ar waith. N: 174 ysgol. Mae pob pwynt yn cynrychioli ysgol.

*Ffynhonnell:* Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu SCDE, 2017.

**Ffigur 4. Sgôr gyfartalog yn ôl dimensiwn YSD, yn ôl math o ysgol**

*Sylwer:* Dadansoddir data ar lefel ysgolion. Diffiniwyd sgôr ysgol gyfartalog o 4 neu fwy ar draws eitemau'r arolwg sy'n ffurfio un dimensiwn fel y trothwy sy'n dangos pryd mae ysgol wedi rhoi'r dimensiwn ar waith.

*Ffynhonnell:* Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu SCDE, 2017.

## DIMENSIYNAU YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU: Y PRIF GANFYDDIADAU

### Datblygu a rhannu gweledigaeth sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu

**Mae datblygu a gwireddu gweledigaeth a rennir sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu yn faes i'w wella i lawer o ysgolion Cymru.** Roedd tua 53% o'r ysgolion yn ein sampl wedi datblygu gweledigaeth o'r fath (sgôr ysgol gyfartalog o 4 neu fwy ar raddfa Likert yr arolwg YSD) – y gyfran isaf ymysg y saith dimensiwn YSD.

Dyweddodd naw o bob deg aelod o staff ysgol (92%) fod gan eu hysgol weledigaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol y disgyblion, gan gynnwys eu lles – canfyddiad calonogol o ystyried yr uchelgeisiau a nodwyd yng nghwricwlwm ysgol newydd Cymru. Er hyn, mae ffynonellau amrywiol yn dangos bod nifer o

ysgolion yng Nghymru yn dal heb roi'r weledigaeth hon sy'n canolbwyntio ar ddysgu yr holl ddisgyblion ar waith. Mae ysgolion Cymru'n wynebu lefelau cymharol uchel o dlodi plant a chyfran uchel o berfformwyr isel yn PISA 2015, ac mae agweddau ar les disgyblion lle gellid gwneud rhagor o gynydd, er enghraifft lleihau pryder disgyblion am waith ysgol a chynyddu ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol.

Mae angen rhagor o waith hefyd i droi'r weledigaeth hon yn un a rennir yn wirioneddol ymysg y staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae cynnwys staff, rhieni a phartneriaid allanol wrth lunio'r weledigaeth yn feysydd i'w gwella, yn enwedig i ysgolion uwchradd.

### Creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod o'r staff

**Nid yw cyfnodau sefydlu a chymorth mentora/coetsio o safon uchel yn arfer cyffredin.** Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o ysgolion Cymru wedi datblygu, neu wrthi'n datblygu, diwylliant sy'n hybu dysgu proffesiynol i'w staff. Mae'n ymddangos bod tua 59% o'r ysgolion yn ein sampl wedi creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod o'r staff (h.y. wedi rhoi'r dimensiwn hwn ar waith). Fodd bynnag, roedd y data'n dangos gwahaniaethau sylweddol rhwng y lefelau

addysg: mae'n ymddangos bod 64% o'r ysgolion cynradd a 26% o'r ysgolion uwchradd wedi rhoi'r dimensiwn hwn ar waith.

Roedd ffynonellau data amrywiol yn dangos bod angen cryfhau trefniadau sefydlu a mentora a choetsio mewn llawer o ysgolion ledled Cymru. Er enghraifft, roedd 35% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg YSD yn anghytuno neu'n ansicr a oedd gan eu hysgol fentoriaid neu hyfforddwyr i helpu staff i ddatblygu eu hymarfer.

**Tabl 1. Cefnogaeth sefydlu a mentora a choetsio**

|                                                                                       | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Niwtral | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|---------|--------|---------------|
| Mae'r holl staff newydd yn cael digon o gefnogaeth i'w helpu yn eu swyddogaeth newydd | 2.3%             | 7.8%      | 19.6%   | 44.5%  | 25.8%         |
| Mae mentoriaid/hyfforddwyr ar gael i helpu staff i ddatblygu eu hymarfer              | 2.5%             | 10.8%     | 22.1%   | 42.7%  | 22.0%         |

*Sylwer:* Dadansoddir data ar lefel unigolion. N: 1 633 ac 1 634 o unigolion yn ôl eu trefn ar gyfer y gosodiadau o arolwg YSD a gyflwynwyd.

*Ffynhonnell:* Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu SCDE, 2017.

Gan fod Cymru wedi dechrau diwygio'r cwricwlwm, bydd angen i athrawon a gweithwyr cymorth dysgu ehangu eu sgiliau addysgeg ac asesu. Bydd hyn yn gwneud

mentora, coetsio a mathau eraill o ddysgu parhaus – a dysgu a gweithio ar y cyd – yn hanfodol.

## Hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff

Mae angen gwneud mwy i hyrwyddo dysgu fel tîm ac adolygu gan gymheiriaid ac annog staff i fynd i'r afael â phroblemau gyda'i gilydd. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod tua saith o bob deg ysgol yn ein sampl (71%) yn hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff. Mae ysgolion cynradd, fodd bynnag, yn gwneud yn well yn hyn o beth: roedd yn ymddangos bod 75% o'r ysgolion cynradd yn ein sampl yn hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith pob aelod o'r staff, o gymharu â 48% o'r ysgolion uwchradd. Yn ychwanegol at hyn, gallai ysgolion wneud mwy i sicrhau bod staff yn dysgu gweithio gyda'i gilydd fel tîm, yn arsylwi ei gilydd yn fwy rheolaidd ac yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'i gilydd.

Roedd yr asesiad hwn yn cyfeirio at wahaniaethau eraill rhwng canfyddiadau gwahanol categorïau staff o lawer o'r elfennau ar y dimensiwn hwn. Er enghraifft, roedd 92% o'r penaethiaid ysgolion uwchradd yn yr arolwg YSD yn cytuno bod staff yn eu hysgolion yn arsylwi ymarfer ei gilydd ac yn cydweithredu i'w ddatblygu, o gymharu â dim ond 67% o'r athrawon.


Er bod rhai gwahaniaethau'n anochel rhwng canfyddiadau gwahanol categorïau staff, gan ei bod yn bosibl bod gan rai staff well gwybodaeth oherwydd natur eu gwaith, mae'r gwahaniaethau mawr ar adegau a nodwyd ar y dimensiwn hwn (ac eraill) yn awgrymu bod angen mwy o ddeialog broffesiynol a rhannu gwybodaeth. Mae hwn eto'n faes i'w wella, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

## Sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio

Nid oes diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn llawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd. Cafodd tîm SCDE ei daro gan newid mewn agweddau o gymharu ag adolygiad SCDE yn 2014. Bryd hynny, gwelodd broffesiwn addysg a oedd yn ymddangos yn llai agored a bodlon i newid ac arloesi ei arferion, ac roedd rhai aelodau o staff ysgolion yn sôn am arwyddion o flino ar ddiwygio. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa hon wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, canfu SCDE nad yw'r newid meddylfryd cyffredinol hwn eto wedi creu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio mewn cyfran arwyddocaol o ysgolion Cymru. Byddai'n ymddangos bod

tua phedair o bob deg ysgol yn ein sampl (41%) heb sefydlu diwylliant o'r fath eto.

Mae'n bosibl bod hyn yn rhannol oherwydd y trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd sy'n rhoi cymaint yn y fantol, a'r gred bod hyn wedi amharu ar barodrwydd a hyder pobl i wneud pethau'n wahanol ac arloesi yn eu hymarfer. Byddai'n ymddangos bod hyn yn arbennig o wir am ysgolion uwchradd – canfu data'r arolwg YSD mai dim ond 26% o'r ysgolion uwchradd yn ein sampl oedd wedi sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio, o gymharu â 63% o ysgolion cynradd. Roedd ffynonellau data eraill yn cadarnhau'r patrwm hwn.



**Ffigur 5.** Sgorau cyfartalog ysgolion ar gyfer sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio, yn ôl math o ysgol

**Sylwer:** Cynhyrchwyd eitemau'r arolwg YSD ar ffurf graddfa bum pwynt Likert: 1) anghytuno'n gryf; 2) anghytuno; 3) niwtral 4) cytuno; a 5) cytuno'n gryf. Mae'r plotiau blwch yn dangos sgorau cyfartalog ysgolion wedi'u didoli yn bedwar grŵp cyfartal o ran maint, felly mae 25% o'r holl sgorau'n cael eu rhoi ym mhob grŵp. Mae'r "blwch" yn y canol, mewn gwyrdd a melyn, yn cynrychioli'r 50% yn y canol o'r sgorau ar gyfer y grŵp. Y canolrif yw pwynt canol y data ac mae'n cael ei ddangos gan y llinell sy'n rhannu'r blwch yn ddwy ran, mewn gwyrdd a melyn.

**Ffynhonnell:** Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu SCDE, 2017.

## Ehangu defnydd o systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth a dysg


Mae'r systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth wedi'u sefydlu'n dda, ond mae ansawdd hunanwerthuso a chynllunio datblygiad mewn ysgolion yn amrywio. Mae'n ymddangos bod systemau i fesur cynnydd wedi'u sefydlu'n dda mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd data'r arolwg YSD yn awgrymu bod 70% o'r ysgolion yn ein sampl wedi rhoi'r dimensiwn hwn ar waith, ac wedi ehangu defnydd o systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth. Eto, mae gwahaniaethau mawr rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd: mae'n ymddangos bod 76% o'r ysgolion cynradd a 30% o'r ysgolion uwchradd wedi ehangu defnydd o systemau o'r fath ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth (y gwahaniaeth mwyaf o'r holl ddimensiynau YSD).

Hefyd, er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod defnyddio data yn gyffredin mewn llawer o ysgolion ledled Cymru, mae'n ymddangos bod gan lawer llai o ysgolion staff sy'n

defnyddio tystiolaeth ymchwil fel sail i'w hymarfer.

Datgelodd cyfweiliadau ac adolygiad o ddogfennau ac adroddiadau polisi fod ansawdd hunanwerthuso a chynllunio datblygiad mewn ysgolion yn faes arall i'w wella. Mae ysgolion – yn ogystal â rhannau eraill o'r system – yn treulio llawer o amser ac yn gwneud cryn ymdrech i ddadansoddi a chyflwyno adroddiadau i lefelau uwch ar amrywiaeth eang o ddata, meintiol yn bennaf, ac yn rhoi llawer llai o sylw i ffynonellau ansoddol, fel arsylwadau dosbarth neu adolygu cymheiriaid, ar gyfer dysgu. Credir bod trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd Cymru, sydd wedi canolbwyntio ar fesurau perfformiad meintiol, wedi cyfrannu at yr arfer hwn. Rhan o'r her yw'r ffaith nad oes dealltwriaeth gyffredin o ystyr hunanwerthuso a chynllunio datblygiad da yng Nghymru (*gweler isod*).

**Ffigur 6. Staff yn defnyddio data a thystiolaeth ymchwil i wella eu hymarfer**



*Sylwer:* Dadansoddir data ar lefel unigol. N: 1 604 a 1595 o unigolion yn ôl eu trefn ar gyfer y gosodiadau o arolwg YSD a gyflwynwyd.

*Ffynhonnell:* Arolwg Sefydliadau fel Ysgolion sy'n Dysgu SCDE, 2017.

## Dysgu drwy'r amgylchedd allanol a'r system ddysgu ehangach

Mae cydweithio rhwng ysgolion yn arfer cyffredin, ond mae angen cryfhau cydweithio â rhai partneriaid allanol. Mae dysgu drwy'r amgylchedd allanol a'r system ddysgu ehangach yn arfer cyffredin mewn ychydig dros hanner yr ysgolion yn ein sampl (55%): mae'n ymddangos bod 57% o'r ysgolion cynradd a 39% o'r ysgolion uwchradd yn ein sampl o ysgolion wedi rhoi'r dimensiwn hwn ar waith.

Un maes i'w wella yw ymgysylltiad rhieni a gwarcheidwaid â phroses addysgol a threfniadaeth yr ysgol. Gwelwyd bod hyn yn her i ysgolion uwchradd yn enwedig: dim ond 57% o staff ysgolion uwchradd oedd yn cytuno bod rhieni neu warcheidwaid yn bartneriaid ym mhrosesau trefniadol ac addysgol eu hyssgolion, o gymharu â 71% o staff ysgolion cynradd. Mae tîm SCDE yn cydnabod y gall cael rhieni i ymgysylltu â

phroses drefniadol ac addysgol yr ysgol fod yn fwy o her mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd. Er hyn, mae enghreifftiau yn yr adroddiad hwn sy’n dangos ei bod yn bosibl i ysgolion gynyddu ymgysylltiad rhieni, hyd yn oed mewn ysgolion uwchradd.

Maes arall i’w wella yw cydweithrediad â sefydliadau addysg uwch. Dangosodd y cyfweiliadau fod rhanddeiliaid ar draws y system yn ymwybodol iawn o’r her hon a’u bod yn cymryd camau i wella’r sefyllfa.

Hefyd, dangosodd yr arolwg YSD fod bron i naw o bob deg atebydd (87%) yn dweud bod staff yn eu hysgol yn mynd ati i gydweithredu â gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd er mwyn ymateb yn well i anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae cyfweiliadau â rhanddeiliaid amrywiol yn awgrymu bod model ariannu a llywodraethu ysgolion Cymru yn effeithio ar allu ysgolion i ymateb i anghenion dysgu eu holl ddisgyblion.

## Modelu a datblygu arweinyddiaeth ym maes dysgu


**Mae angen buddsoddiad parhaus yng ngallu arweinwyr ysgolion i fodelu a datblygu arweinyddiaeth ym maes dysgu.** Roedd data’r arolwg YSD yn awgrymu bod gan tua dau draean (67%) o’r ysgolion yn ein sampl arweinwyr sy’n modelu a datblygu arweinyddiaeth ym maes dysgu. Roedd yn ymddangos bod ysgolion cynradd yn gwneud yn well hefyd: roedd yn ymddangos bod gan 70% o’r ysgolion cynradd arweinwyr sy’n modelu a datblygu

arweinyddiaeth ym maes dysgu, o gymharu â 39% o’r ysgolion uwchradd.

Meysydd penodol i’w datblygu yw arweinwyr yn coetsio’r rheini y maent yn eu harwain a chreu lleoliadau lle gall ymddiriedaeth ddatblygu dros gyfnod fel bod cydweithwyr yn fwy tebygol o ymwneud â dysgu ar y cyd. Dangosodd y data wahaniaethau sylweddol rhwng nifer o’r elfennau sy’n ffurfio’r dimensiwn hwn, ac athrawon oedd y rhai mwyaf beirniadol.

**Ffigur 7. Coetsio gan arweinwyr, yn ôl categori staff**

*Ymatebion i’r datganiad “Arweinwyr yn coetsio’r rheini y maent yn eu harwain”*



*Sylwer:* Dadansoddir data ar lefel unigolion. N: 1 570 o unigolion.

*Ffynhonnell:* Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu SCDE, 2017.

Yn ogystal, roedd y dystiolaeth yn awgrymu y gallai penaeithiad ysgolion uwchradd yng Nghymru roi mwy o bwyslais ar sicrhau bod gweithgareddau eu hysgol yn adlewyrchu ei gweledigaeth a'i hamcanion, a chyfathrebu'n well â'u staff am yr ymdrechion hyn.

Roedd y sgorau uchel ar y cyfan ar y dimensiwn hwn yn gwrthgyferbynnu â ffynonellau data eraill fel cyfweiliadau tîm SCDE ac adroddiadau Estyn. Roedd y

dadansoddiad o ddimensiynau YSD eraill hefyd yn nodi llawer o feysydd i'w gwella ymhellach. Mae arweinwyr ysgolion yn chwarae rhan hollbwysig wrth hybu a chryfhau rhaglenni sefydlu, mentora/coetsio, adolygu cymheiriaid a chreu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio yn eu hysgolion. Mae sefydlu'r amodau hyn, ymhlith eraill, er mwyn datblygu diwylliant o ddysgu ar draws holl sefydliad yr ysgol yn faes i'w wella, yn enwedig i arweinwyr ysgolion uwchradd.

## PWYNTIAU I YSGOLION FYFYRIO A GWEITHREDU ARNYNT

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu. Fodd bynnag, mae dau ddimensiwn yn llawer llai datblygedig ac yn haeddu sylw arbennig: "datblygu gweledigaeth a rennir sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu" a "sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio". Gallai llawer o ysgolion wneud mwy hefyd i "ddysgu drwy'r amgylchedd allanol a'r system ehangach".

Er bod angen rhoi cefnogaeth ddigonol i alluogi ysgolion i ddatblygu'n sefydliadau sy'n dysgu, mae llawer o gamau gweithredu o fewn rheolaeth ysgolion eu hunain. Mae arweinwyr ysgolion yn chwarae rhan hollbwysig o ran creu'r amodau cywir i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu. Mae angen eu cefnogi i dderbyn y cyfrifoldeb hwn. Fodd bynnag, mae angen i athrawon a gweithwyr cymorth dysgu hefyd wneud eu rhan i weithio a dysgu gyda chydweithwyr y tu hwnt i'w hadran, eu maes pwnc neu eu hysgol. Mae cynnal deialog broffesiynol â chydweithwyr, dysgu gyda a gan staff mewn ysgolion eraill – gan gynnwys rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd – a phartneriaid allanol, a manteisio ar gefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol yn rhai o'r dulliau y gall staff eu defnyddio.

Mae angen i staff hefyd fyfyrion fwy beirniadol ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu hysgol er mwyn i ddysgu dwfn a chynnydd parhaus ddigwydd – ac mae angen eu grymuso i wneud hyn. Mae gan arweinwyr ysgolion ran hollbwysig i'w chwarae er mwyn creu hinsawdd o ymddiriedaeth a pharch sy'n caniatáu trafodaethau agored am broblemau, arferion llwyddiannus a llai llwyddiannus, a

rhannu gwybodaeth. Bydd hyn hefyd yn hanfodol er mwyn lleihau'r gwahaniaethau rhwng canfyddiadau staff am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad yr ysgol. Dylid defnyddio'r adolygiad parhaus o'r trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd i annog pobl a rhoi iddynt yr hyder i wneud pethau'n wahanol a myfyrion feirniadol.

Mae ysgolion uwchradd yn amlwg yn wynebu mwy o heriau wrth ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu. Credir bod eu strwythur mwy adrannol, sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt gydweithio ar draws adrannau a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn ffactorau yn hyn o beth. Yn ychwanegol at hyn, nid yw rhai arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn gwneud digon i annog diwylliant o ddysgu ar draws holl sefydliad yr ysgol. Bydd llwyddiant y broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn dibynnu (ymysg pethau eraill) ar allu staff i ddysgu a gweithio ar y cyd yn drawsgwricwlaidd, o fewn ysgolion a rhwng ysgolion. Er hyn, gwelodd yr asesiad hwn nifer o enghreifftiau o ysgolion uwchradd sy'n arddangos dimensiynau sefydliad sy'n dysgu, gan ddangos bod hyn yn bosibl.

Yn olaf, er y bydd angen rhoi polisi ar waith i leihau amrywiadau rhwng y cyllid mewn gwahanol ysgolion sydd mewn amgylchiadau tebyg, gall ysgolion gymryd camau i sicrhau bod gan staff yr amser a'r adnoddau i gydweithio a dysgu ar y cyd. Mae'r enghreifftiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dangos nad oes angen i bwysau ar gyllidebau arwain at ostwng uchelgeisiau. Dylid casglu'r enghreifftiau hyn mewn modd systematig a'u rhannu'n eang i ysbrydoli a hysbysu ysgolion eraill yn eu hymdrechion i newid ac arloesi.

## ASESIAD AR LEFEL Y SYSTEM AR GYFER DATBLYGU YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

### Polisiau ar lefel y system, sy'n galluogi ysgolion i ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu

Mae'r adran hon yn ystyried pa bolisiau ar lefel y system sy'n galluogi neu'n rhwystro ysgolion rhag datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, ac yn cynnig argymhellion pendant er mwyn cryfhau polisiau, cydlynu polisiau'n well a chymryd camau pellach.

#### Hybu gweledigaeth a rennir sy'n rhoi sylw i les pob dysgwr a'r hyn y mae'n ei ddysgu

Mae datblygu gweledigaeth gynhwysol a rennir, sy'n hybu tegwch a lles, yn ganolog i ddimensiwn cyntaf model YSD Cymru. Mae gwireddu "pedwar diben" y cwricwlwm ysgol newydd hefyd yn ganolog i'r model. Mae'r rhain yn cyfeirio at ddatblygu plant a phobl ifanc i fod yn "ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus ac yn unigolion iach a hyderus". Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y rhennir y weledigaeth hon yn eang drwy'r system ysgolion i gyd. Mae hyn yn un o gryfderau'r ymgais i ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae system ysgolion Cymru wedi mynegi ymrwymiad cryf i degwch a lles disgyblion ac mae wedi gweithredu polisiau amrywiol fel y Grant Amddifadedd Disgyblion a phrydau ysgol am ddim er mwyn targedu heriau tegwch yn y system ysgolion. Fodd bynnag, mae angen rhoi rhagor o sylw polisi i ddau fater: y model ariannu ysgolion a diffyg dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae lles disgyblion yn ei gynnwys.

#### Mae system ariannu ysgolion Cymru yn her o safbwynt tegwch

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwahaniaethau rhwng modelau ariannu lleol yn achosi i ysgolion sydd mewn amgylchiadau tebyg gael eu trin yn anghyfartal. Gan gydnabod na fyddai trawsnewid y model ariannu o reidrwydd yn ddichonadwy yn y tymor byr-canolig, un cam gweithredu pendant posibl fyddai cynnal dadansoddiad manwl o ariannu ysgolion yng Nghymru er mwyn archwilio model ariannu sy'n hybu mwy o degwch ac effeithlonrwydd. Gallai edrych ar systemau

addysg fel sydd yn y Gymuned Fflemidd yng ngwlad Belg, Latfia, Lithwania a'r Iseldiroedd, sydd wedi sefydlu fformiwlâu ariannu i hybu tegwch a chynyddu effeithlonrwydd.

Er enghraifft, mae Lithwania wedi diffinio uchafswm ar gyfer cyfran yr arian y caiff bwrdeistref ei aildyrannu. Addaswyd hyn nifer o weithiau i sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddrynnu i ysgolion.

#### Mae angen diffinio a mesur lles disgyblion

Her arall i wireddu ymrwymiad Cymru i degwch a lles disgyblion yw diffyg dealltwriaeth gyffredin o les disgyblion yng Nghymru, a ffyrdd o fonitro hyn. Mae'r diffyg eglurder ar y cysyniad hwn, a'r anallu i'w fesur, hefyd wedi'i gydnabod yng nghynllun addysg strategol Cymru. Y cam cyntaf fydd cyrraedd dealltwriaeth gyffredin o'r cysyniad, gan ystyried heriau i degwch a lles disgyblion yng Nghymru. Bydd angen arweiniad a chefnogaeth ar ysgolion er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Mae'r cynllun i dreialu pecyn offer cenedlaethol i ysgolion ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio datblygiad yn hydref 2018 yn rheswm arall dros gyflymu'r gwaith hwn.



## ARGYMHELLION I HYBU GWELEDIGAETH A RENNIR SY'N RHOI SYLW I'R HYN Y MAE POB DYSGWR YN EI DDYSGU

- **Adolygu'r model ariannu ysgolion i wireddu ymrwymiad Cymru i degwch a lles disgyblion.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal dadansoddiad manwl o ariannu ysgolion yng Nghymru er mwyn archwilio model ariannu sy'n hybu mwy o degwch ac effeithlonrwydd.
- **Datblygu diffiniad cenedlaethol o les disgyblion a darparu arweiniad ac offer i'w fonitro.**

## ■ Hybu datblygiad cyfalaf proffesiynol a diwylliant dysgu ffyniannus

Mae YSD yn adlewyrchu ffocws canolog ar ddysg broffesiynol yr holl staff, gyda'r nod o greu diwylliant dysgu cynaliadwy yn y sefydliad ac mewn rhannau eraill o'r system (ddysgu). Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da mewn amryw o feysydd, gan gynnwys hybu cydweithrediad rhwng gwahanol ysgolion ac egluro disgwyliadau proffesiynol drwy'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae llawer o faterion yn haeddu mwy o sylw polisi fodd bynnag, gan gynnwys cryfhau prosesau sefydlu, coetsio a mentora, adolygu cymheiriaid ac addysgu a dysgu seiliedig ar ymholi o safon uchel mewn ysgolion ledled Cymru. Hefyd, mae lle i wella'r cydweithio â sefydliadau addysg uwch. Ymddengys bod heriau'n codi hefyd o ran gallu arweinwyr ysgolion, yn enwedig arweinwyr ysgolion uwchradd, a phobl mewn safleoedd arwain ar lefelau eraill yn y system.

### Sefydlu cydweithio cryfach rhwng ysgolion a sefydliadau addysg athrawon

Mae llawer o wledydd SCDE yn y blynyddoedd diwethaf wedi codi gofynion mynediad eu rhaglenni addysg athrawon, gan gynnwys Cymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfyngu i godi graddau mynediad. Mae addysgu yn yr 21ain ganrif yn broffesiwn cymhleth a heriol; mae angen dangos cymysgedd o sgiliau gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol ar lefel uchel bob dydd. I ddilyn enghreifftiau gwledydd fel Lloegr, y Ffindir a'r Iseldiroedd, dylai Cymru ystyried defnyddio gweithdrefnau derbyn a dethol sy'n mynd y tu hwnt i ofynion gradd ffurfiol.

Yn ychwanegol at hyn, gall partneriaethau rhwng sefydliadau addysg athrawon ac ysgolion fod o fudd i'r naill bartner a'r llall ond nid ydynt yn gyffredin yng Nghymru. Un datblygiad cadarnhaol yw bod y gofynion achredu newydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch sy'n cynnig rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yn rhoi pwyslais ar bartneriaethau gydag ysgolion. Dylai ysgolion hefyd wneud eu rhan i sefydlu'r math hwn o gydweithredu, a all ddwyn ffrwyth. Dylai proses hunanwerthuso'r ysgol gydnabod cyfraniad ysgolion at sefydliadau addysg athrawon yn fwy cyhoeddus. Hefyd, dylai ysgolion, sefydliadau addysg uwch, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn prosiectau penodol sy'n hybu cydweithredu o'r fath.



### Hybu dysgu drwy gydol cylch bywyd proffesiynol

Canfu'r asesiad hwn dri maes blaenoriaeth ar gyfer dysgu proffesiynol lle byddai'n ymddangos bod angen gweithredu polisi pellach. Y cyntaf yw datblygu'r sgiliau a'r meddylfryd i ymwneud ag ymholi, archwilio ac arloesi. Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi'r cwricwlwm newydd, sy'n cael ei lunio o gwmpas "syniadau mawr", ar waith, neu fel y cyfeirir ato yn aml yng Nghymru, "beth sy'n bwysig". Mae hyn yn her i ysgolion uwchradd yn enwedig. Gan gydnabod ei bod yn anodd rhoi dulliau sy'n seiliedig ar ymholi ar waith, a bod pryder ynglŷn â gallu athrawon i gynnal sesiadau ansawdd yng Nghymru, mae angen ymdrech unedig i ddatblygu sgiliau ymarferwyr ym maes dysgu ac addysgu sy'n seiliedig ar ymholi. Dylai'r ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i ategu'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymarferwyr ym maes dulliau gweithredu seiliedig ar ymholi. Mae sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr ymdrech hon. Gallai Cymru edrych ar enghraifft Columbia Brydeinig yng Nghanada, lle mae rhwydweithiau ysgol-i-ysgol yn hybu dulliau gweithredu seiliedig ar ymholi ar raddfa fawr, gan fuddsoddi hefyd mewn datblygu arweinyddiaeth.

Yn ail, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod heriau o ran nifer ac ansawdd y rhaglenni sefydlu yng Nghymru. Mae gan Gymru gyfnod sefydlu gorfodol o flwyddyn ar gyfer ei holl athrawon newydd gymhwyso – ond nid ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu, sy'n

gyfran fawr o weithlu ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol edrych am ffyrdd o gryfhau rhaglenni sefydlu er mwyn diogelu a gwella ansawdd gweithlu addysg Cymru yn y dyfodol. Gallai edrych ar yr Iseldiroedd, lle mae athrawon uwchradd newydd, fel rhan o brosiect pilot, yn cael rhaglen sefydlu dair blynedd sydd wedi cael ei llunio ar y cyd gan sefydliadau addysg athrawon ac ysgolion – partneriaeth sydd o fudd i'r ddau bartner.

Yn drydydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw coetsio a mentora, arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth ac adolygu cymheiriaid wedi'u sefydlu'n dda eto mewn ysgolion ledled Cymru. Mae arweinwyr ysgolion yn chwarae rhan hollbwysig drwy sefydlu'r amodau cywir i arferion cydweithio fel hyn ffynnu, ond bydd angen eu cefnogi a datblygu eu gallu i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Rhan o'r her yw nad yw gwerthusiadau ysgolion wedi gwneud digon i hybu arferion cydweithredol o'r fath. Dylai'r adolygiad parhaus o brosesau gwerthuso ysgolion ystyried y canfyddiadau hyn. Bydd integreiddio model YSD Cymru yn y pecyn offer cenedlaethol i hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion sy'n cael ei ddatblygu yn bwysig er mwyn hybu arferion cydweithio o'r fath.

### **Datblygu arweinyddiaeth dysgu mewn ysgolion a rhannau eraill o'r system**

Yng Nghymru, cydnabyddir yn glir bod angen buddsoddi yn arweinwyr ysgolion y presennol a'r dyfodol, ac mewn arweinwyr ar lefelau eraill yn y system, a chymerwyd llawer o gamau yn ddiweddar i gynorthwyo i ddatblygu eu gallu. Mae'r rhain yn cynnwys lansio Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn ddiweddar, y penderfyniad i integreiddio model YSD Cymru ym mhob rhaglen datblygu

arweinyddiaeth a'r ymrwymadau gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru a nifer o sefydliadau haen ganol i'w datblygu eu hunain i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

Fodd bynnag, mae datblygu i fod yn sefydliad sy'n dysgu yn fwy o her i lawer o ysgolion uwchradd nag i ysgolion cynradd. Dylai'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol sydd newydd ei sefydlu, ac sy'n goruchwyllo'r gwaith o ddarparu cefnogaeth a datblygiad i arweinwyr addysg yng Nghymru, roi sylw penodol i arweinwyr ysgolion uwchradd. Mae angen i'r consortia rhanbarthol hefyd ganolbwyntio mwy ar y sector uwchradd a hybu cydweithio nid yn unig rhwng ysgolion uwchradd ond hefyd ag ysgolion cynradd.

Gwelir nad yw llawer o lywodraethwyr yn cyflawni eu swyddogaeth fel ffrind beirniadol yn effeithiol. Mae'r adolygiad parhaus o hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion yn gyfle i edrych eto ar swyddogaethau llywodraethwyr a chanfod anghenion datblygu. Hefyd, mae llawer o awdurdodau lleol wedi wynebu trosiant staff uchel mewn swyddi arwain. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen buddsoddi rhagor yng ngallu arweinwyr canol a herio cynghorwyr yn y consortia rhanbarthol.

Mae angen ymdrech unedig i ddatblygu'r gallu i arwain ar bob lefel yn y system a sicrhau bod arweinyddiaeth yn allweddol i ddatblygiad YSD a diwygio'r cwricwlwm. Gallai'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a rhanddeiliaid eraill edrych ar systemau addysg fel sydd yn Ontario a Columbia Brydeinig yng Nghanada, ac yn yr Alban, lle mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud er mwyn datblygu gallu arweinwyr ar lefel ysgolion ac ar lefel y system, gan gynnwys mewn asiantaethau haen ganol.



**ARGYMHELLION I HYBU CYFALAF PROFFESIYNOL A DIWYLLIANT DYSGU FFYNIANNUS**

- **Dylai dethol pobl i mewn i addysg gychwynnol i athrawon fod yn seiliedig ar gymysgedd o feini prawf a dulliau.** Yn unol â'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth, dylai sefydliadau addysg athrawon ehangu a threialu meini prawf dethol a gweithdrefnau derbyn mwy manwl a chynhwysfawr i ymdrin â chymysgedd o sgiliau gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol, gwerthoedd ac agweddau.
- **Hybu cydweithio cryf rhwng ysgolion a sefydliadau addysg athrawon.** Dylid defnyddio'r adolygiadau parhaus o werthusiadau ysgolion (h.y. o hunanwerthusiadau a gwerthusiadau Estyn) i annog ysgolion i sefydlu partneriaethau cynaliadwy â sefydliadau addysg athrawon. Dylai ysgolion, sefydliadau addysg uwch, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn prosiectau penodol i helpu i ddatblygu dulliau arloesol o'r fath.
- **Dyma'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer dysgu proffesiynol:**
  - **Buddsoddi yn y sgiliau a'r meddylfryd ar gyfer ymholi, archwilio ac arloesi er mwyn ffynnu a rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.**
  - **Cryfhau rhaglenni sefydlu.** Dylid hybu partneriaethau rhwng sefydliadau addysg athrawon ac ysgolion oherwydd y budd i'r naill bartner a'r llall. Ni ddylid anghofio am weithwyr cymorth dysgu.
  - **Hybu mentora a choetsio, arsylwi ac adolygu cymheiriaid.** Bydd integreiddio model YSD Cymru yn y pecyn offer cenedlaethol i hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion yn bwysig er mwyn hybu arferion cydweithio o'r fath.
- **Datblygu a gweithredu strategaeth arweinyddiaeth gydlynol sy'n hybu sefydlu sefydliadau sy'n dysgu ar draws y system.** O dan arweinyddiaeth Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, dylai Cymru gyfnerthu a chyflymu ymdrechion i gryfhau gallu arweinyddiaeth ar bob lefel yn y system.
- **Darparu mwy o gefnogaeth i arweinwyr ysgolion uwchradd, a sicrhau bod ganddynt y gallu i ddatblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.** Dylai Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ganolbwyntio mwy ar ddatblygu gallu arweinwyr ysgolion uwchradd, gan gofio cynnwys arweinwyr canol. Dylai'r consortia rhanbarthol hefyd ganolbwyntio ar gefnogi arweinwyr ysgolion uwchradd.



## □ Dylai asesu, gwerthuso ac atebolrwydd hybu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n dysgu

Gellir gwneud gwelliannau mawr os yw ysgolion a systemau ysgolion yn cynyddu eu gallu ar y cyd i wneud gwaith “asesu ar gyfer dysgu” parhaus, a gwerthuso eu hymyriadau'n rheolaidd. Mae trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd Cymru yn destun adolygiad ar hyn o bryd. Mae'r asesiad hwn yn hanfodol gan nad yw'r trefniadau presennol yn ddigon cydlynol; maent hefyd yn seiliedig ar ofynion atebolrwydd yn hytrach nag ateb y diben o ddysgu a gwella. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud llawer i annog ysgolion i ymholi, arloesi ac archwilio a datblygu fel YSD yn fwy cyffredinol – maes penodol i'w wella i lawer o ysgolion Cymru.

### Dylai asesiadau disgyblion ganolbwyntio ar ddysg disgyblion

Gallai nifer o wahanol fesurau a gyflwynwyd yn ddiweddar helpu i roi lle canolog i ddysg disgyblion. Mae gwaith yr Ysgolion Arloesi a mesurau eraill a gynigir yng Nghynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru, [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#), er mwyn cryfhau sgiliau asesu athrawon yn bwysig o ystyried y pryderon hirsefydlog ynglŷn â gallu athrawon i gynnal asesiadau ansawdd. Mae'r broses barhaus o ddatblygu asesiadau personol ymaddasol ar-lein yn gam addawol ymlaen hefyd; bydd y rhain yn disodli profion darllen a rhifedd ar bapur a bwriedir eu hymestyn i feysydd eraill yn y cwricwlwm newydd yn y blynyddoedd i ddod. Yn ogystal, bydd yr adolygiad o gymwysterau sydd ar y gweill yn hanfodol er mwyn cysoni asesiadau a gwerthusiadau â'r cwricwlwm newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amlinellu ei chynlluniau i fesur lles disgyblion. Dylai hyn ddechrau drwy ddiffinio'r cysyniad a datblygu canllawiau ac offer i ysgolion eu defnyddio (fel sy'n cael ei argymhell uchod).



### Dylai gwerthusiadau ysgolion ateb y prif ddiben, sef dysgu a gwella

Mae perfformiad ysgolion yn cael ei werthuso'n allanol yng Nghymru drwy arolygiadau Estyn a'r system genedlaethol ar gyfer categorïddio ysgolion; mae llawer yn teimlo bod y system hon yn anghyson a'i bod yn arwain at “chwarae'r system”. Mae amryw o ganllawiau ac offer ar gyfer hunanwerthuso a datblygu ar gael hefyd, ac mae llawer o bobl yn teimlo mai rhywbeth i'w wneud “i Estyn” yw hunanwerthuso ysgolion. O ganlyniad, nid oes gan ysgolion ddarlun clir o'r hyn a ddisgwyllir ganddynt o ran hunanwerthuso a chynllunio datblygiad, ac mae hyn wedi cyfrannu at safon amrywiol y gweithgareddau hyn.

Mae parhau i ddatblygu pecyn offer cenedlaethol i ysgolion ar gyfer hunanwerthuso a datblygu yn ymateb polisi pwysig i'r heriau hyn. Mae gweithgor wedi cael y cyfrifoldeb o'i ddatblygu a gallai ddilyn esiampl llawer o wledydd SCDE a defnyddio'r cwestiwn “beth yw ysgol dda?” i helpu i sefydlu meini prawf cyffredin ar gyfer hunanwerthusiadau ysgolion a gwerthusiadau Estyn. Dylai'r agweddau i'w hystyried wrth ddatblygu meini prawf neu ddangosyddion ansawdd gynnwys: hoelio sylw ar ddysg a lles disgyblion ar draws y cwricwlwm; model YSD Cymru a'r dimensiynau sy'n ei danategu; dysgu proffesiynol a lles staff ac; ymgysylltiad disgyblion a rhieni.

Yn groes i'r arfer cyffredin mewn llawer o ysgolion yng Nghymru, dylai hunanwerthusiadau hefyd ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr ysgolion, rhieni ac ysgolion eraill, er mwyn nodi cryfderau, heriau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Gan ddilyn enghreifftiau gwledydd fel y Ffindir, Iwerddon a'r Iseldiroedd, dylai adolygu cymheiriaid ymysg ysgolion ategu'r broses hon.

Gellid parhau ag adolygiad presennol y consortia rhanbarthol o hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion (fel rhan o'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio). Ymddengys y byddai angen rhoi'r gorau i godau lliw ar gyfer ysgolion er mwyn rhoi'r hyder i ysgolion wneud pethau'n wahanol ac arloesi – cyn belled â bod y trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd newydd yn cynnwys digon o rwystrau a gwrthbwysau i fonitro cynnydd a chanfod yr ysgolion hynny sydd angen cymorth ychwanegol.

Yn ychwanegol at hyn, dylai ysgolion fod yn gwbl glir sut bydd y broses o bontio i system newydd yr hunanwerthusiadau a gwerthusiadau Estyn yn gweithio.

### **Dylai monitro a gwerthuso ar lefel y system hybu dysgu – ar bob lefel yn y system**

Yn ystod yr asesiad hwn, datgelodd Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ei syniadau cychwynnol ar gyfer gwerthuso ar lefel y system drwy gyfrwng nifer o “ddangosyddion ansawdd” – yn hytrach nag ystod gyffredin o ddangosyddion meintiol gan fwyaf. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r cynigion cychwynnol yn cyd-fynd yn ddigonol ag uchelgeisiau

model YSD Cymru a'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, er yr awgrymwyd y dylid rhoi rhyddid i ysgolion ddewis dangosyddion perfformiad allweddol yn seiliedig ar anghenion lleol, byddai dangosyddion cenedlaethol ar gyfer pynciau allweddol Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau. Mae'r dangosyddion hyn yn debygol o barhau i arwain ymddygiad oni chynigir camau gweithredu pellach. Un opsiwn posibl fyddai ystyried dangosyddion ar les disgyblion a lles staff. Byddai hyn yn tanlinellu'r neges mai'r bwriad yw symud tuag at fframwaith asesu, gwerthuso ac atebolrwydd newydd sy'n ymateb i bob rhan o'r cwricwlwm, gan gydnabod pwysigrwydd lles y staff.

Hefyd, ar hyn o bryd defnyddir asesiadau athrawon o berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3 i fonitro cynnydd ysgolion a'r system. Mae'r pwrpas deul hwn yn golygu bod llawer yn y fantol ac yn herio eu dibynadwyedd. Felly, gan ailddatgan yr argymhellion yn adroddiad [Dyfodol Llwyddiannus](#) gan Graham Donaldson, a chan ddilyn enghreifftiau systemau addysg fel rhai'r Gymuned Fflemaid yng ngwlad Belg, y Ffindir a Seland Newydd, gallai'r gwaith o fonitro dysg a lles disgyblion ar lefel genedlaethol fod yn seiliedig yn lle hynny ar asesiadau o samplau sy'n ymdrin â'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.

Hefyd, gallai Estyn chwarae rhan fwy amlwg yn y gwaith o fonitro cynnydd ar lefel y system er mwyn bodloni pedwar diben y cwricwlwm. Mae adroddiadau blynyddol a thematig Estyn yn addas iawn i hyn, a dylent ddefnyddio ystod ehangach o dystiolaeth, gan gynnwys yr asesiadau seiliedig ar samplau a gynigiwyd, PISA ac ymchwil berthnasol.



## ARGYMHELLION AM ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD I HYBU YSGOLION I FOD YN SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

- **Datblygu meini prawf cenedlaethol ar gyfer ansawdd ysgolion i arwain hunanwerthusiadau a gwerthusiadau Estyn.** Dylai'r meini prawf neu'r dangosyddion ansawdd hyn hybu model YSD Cymru, monitro dysg a lles disgyblion ym mhob rhan o'r cwricwlwm a chynabod anghenion dysgu staff a'u lles mewn cynlluniau datblygu staff. Dylai'r rhain a meini prawf eraill posibl annog ysgolion i ystyried eu cryfderau a'u blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella.
- **Dylid llunio hunanwerthusiadau ysgolion mewn proses gyfranogol sy'n cynnwys cymuned eang yr ysgol.** Dylai adolygiadau cymheiriaid ymysg ysgolion ategu'r broses hon. Dylai consortia rhanbarthol barhau i adolygu hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion ond ni ddylai'r broses hon arwain at roi cod lliw cyhoeddus i ysgolion mwyach. Mae hyn ar yr amod bod rhwystrau a gwrthbwysau digonol wedi'u cynnwys yn y trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd newydd. Mae'r newidiadau hyn yn galw am fuddsoddiad sylweddol yng ngallu pawb sy'n ymwneud â hunanwerthuso a chynllunio datblygiad. Dylid cynnig canllawiau ac offer i ysgolion.
- **Dylai arolygiadau Estyn ddiogelu ansawdd ysgolion, gan ganolbwyntio ar drylwyredd y broses o hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion.** Dylai Estyn hybu ysgolion i ddatblygu eu gallu eu hunain i hunanwerthuso a chanolbwyntio ar ganfod cryfderau a blaenoriaethau i'w gwella. Er hyn, bydd angen rhoi rhwystrau a gwrthbwysau digonol ar waith er mwyn monitro cynnydd a chanfod yr ysgolion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn galw am fuddsoddiad cyson er mwyn datblygu sgiliau ac agweddau arolygwyr Estyn.
- **Rhoi eglurder i ysgolion a rhanddeiliaid eraill am y cyfnod pontio cyn y system newydd o hunanwerthuso ysgolion a gwerthusiadau Estyn.**
- **Dylai mesurau perfformiad fynd y tu hwnt i'r pynciau allweddol Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth – hefyd yn y cyfnod pontio.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mesurau perfformiad (dangosyddion) ar gyfer lles disgyblion a lles staff er mwyn cysoni asesu, gwerthuso ac atebolrwydd ag uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd a model YSD Cymru.

Yn ogystal â defnyddio ymchwil, dylai prosesau cenedlaethol i fonitro dysg a lles disgyblion fod yn seiliedig ar raglen dreigl o asesiadau o samplau ac adroddiadau Estyn.

## GWIREDDU YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

Mae'r rhan hon yn ystyried sut gall Cymru sicrhau bod ei pholisi YSD yn cael ei roi ar waith yn effeithiol – neu fel y cyfeirir ato'n aml yng Nghymru, yn cael ei “wireddu” – ac yn darparu pwyntiau i fyfyrwyr arnynt ac argymhellion. Er mwyn gwneud hyn rydym yn edrych ar y pedwar penderfynydd a all hwyluso neu rwystro'r broses hon: llunio polisiau deallus, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyd-destun ffafriol a strategaeth weithredu effeithiol.

## Llunio'r polisi: gwella cyfiawnhad y polisi, ei resymeg a'i ddichonoldeb

Er mwyn gwella'r potensial i roi polisi ar waith – yn yr achos hwn, y polisi i ddatblygu pob ysgol yng Nghymru i fod yn sefydliad sy'n dysgu – mae'n bwysig ei fod wedi'i gyfiawnhau, ei fod yn adeiladu ar dystiolaeth ac yn ymateb yn glir i angen, ei fod yn ategu polisiau eraill a'i fod yn ddichonadwy. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y proffesiwn addysg wedi croesawu polisi YSD Cymru. Mae rhannau o'r proffesiwn addysg a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru yn dechrau deall ei gyfiawnhad, ei resymeg a'i le yn yr ymdrech ehangach i ddiwygio'r cwricwlwm, er bod mwy o waith yn amlwg i'w wneud yma. Gwnaethpwyd cynnydd hefyd yn y blynyddoedd diwethaf i gryfhau seilwaith y system a fydd yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

Fodd bynnag, mae tri mater yn galw am sylw pellach: cyfathrebu'n well ynghylch cwestiynau "pam" a "sut" y model YSD, monitro'r gyllideb addysg yn ofalus ac adolygu'r model ariannu ysgolion er mwyn sicrhau bod digon o gyllid i bob ysgol ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, a pharhau i gryfhau seilwaith y system gefnogi.

### Cyfathrebu'n well ynglŷn â'r rhesymau y tu ôl i bolisi YSD Cymru mewn cysylltiad â diwygio'r cwricwlwm a pholisiau eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio sicrhau bod ganddi bolisiau cydlynol, ac mae wedi bod yn fwy a mwy llwyddiannus, ond nid yw bob amser wedi bod yn dda am gyfathrebu ei llwyddiannau yn y maes hwn. Mae angen iddi wneud rhagor i egluro wrth ysgolion ac eraill ar wahanol lefelau pam y datblygwyd model YSD Cymru, sut gall arwain datblygiad ysgolion a sut mae'n rhan integredig o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ac yn ymwneud â pholisiau eraill megis y safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd.



### Sicrhau bod y gyllideb addysg a'r model ariannu ysgolion yn cefnogi ysgolion i ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu a rhoi'r cwricwlwm ar waith

Er bod llawer o ysgolion yng Nghymru i'w gweld yn gwneud cynnydd da tuag at ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, mae cyfran sylweddol yn dal yn bell iawn o gyflawni'r amcan hwn a bydd arnynt angen llawer o gefnogaeth. Rhaid amcangyfrif goblygiadau hirdymor adnoddau yn ofalus i roi sail i ddatblygu a chynnal y cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer YSD (gweler isod).

Mae sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru – gostyngiad yn y gyllideb addysg o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, tuedd y disgwylir iddi barhau yn y blynyddoedd i ddod – yn rhoi mwy o bwyslais ar chwilio am ffyrdd o wario arian cyhoeddus ar addysg mewn modd mwy effeithlon. Mae hefyd yn galw am archwilio ffyrdd creadigol ac arloesol o sefydlu diwylliant dysgu mewn ysgolion a rhwng ysgolion, gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn yr adolygiad arfaethedig o'i model ariannu ysgolion, dylid rhoi sylw i bryderon bod ysgolion sydd mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin yn anghyfartal o ganlyniad i fodelau ariannu lleol gwahanol (gweler yr argymhelliad uchod).

**Parhau i gryfhau seilwaith y system i gefnogi ysgolion â’u hymdrechion i newid ac arloesi**

Un datblygiad cadarnhaol yw'r cynnydd a wnaethpwyd yn y blynyddoedd diwethaf o ran datblygu seilwaith y system yng Nghymru, yn enwedig y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan consortia rhanbarthol. Mae llawer o heriau a meysydd i'w gwella eto'n dal i fodoli, fodd bynnag.

- Mae gwireddu'r diwygiadau i'r cwricwlwm a datblygu YSD ill dau'n debygol o gynyddu'r galw am gymorth gan ysgolion, felly bydd angen i'r consortia rhanbarthol fod yn drefnus ac wedi'u rheoli'n dda i ymateb i'r galwadau hyn.
- Mae consortia rhanbarthol i wahanol raddau'n dal i roi pwyslais ar herio ysgolion yn hytrach na'u cefnogi a hybu diwylliant o ddysgu, er eu bod wedi dechrau newid eu gweithrediadau yn ddiweddar i addasu'r cydbwysedd. Dylai'r consortia ddal i fuddsoddi yn eu staff, yn enwedig eu cynghorwyr herio, sef y pwynt cyswllt cyntaf i ysgolion, er mwyn cynyddu eu gallu i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu a chynorthwyo ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.
- Er bod enghreifftiau o gydweithio da rhwng y consortia, mae lle i ddyfnhau'r cydweithio a'r cydlynu – a lleihau'r gystadleuaeth sydd rhyngddynt.
- Gellid gwneud rhagor o gynnydd ym maes monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau gwella ysgolion y consortia rhanbarthol.

Yn ogystal, dylai Estyn ddal i fonitro cynnydd consortia a sicrhau eu bod yn cydweithio i chwilio am ffyrdd o wella'u gwasanaethau i ysgolion. Mae hyn yn wir hefyd o ran monitro awdurdodau lleol yn barhaus.

Mae sefydliadau addysg uwch hefyd wedi ymgysylltu mwy a mwy â system yr ysgol, gan ehangu seilwaith y system yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar ar y datblygiad hwn o hyd. Mae llawer o argymhellion wedi'u gwneud yn yr adroddiad hwn ar yr asesiad i hybu cydweithrediadau o'r fath lle mae pawb ar ei ennill.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysol

### Parhau â'r broses o adeiladu ar y cyd er mwyn gwireddu YSD ledled Cymru, gan gefnogi mwy o gydlynad polisi

Mae cydnabod a chynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y broses ddylunio a gweithredu, a sut gwneir hynny, yn hanfodol i lwyddiant unrhyw bolisi. Mae'r broses o adeiladu ar y cyd, sy'n nodweddiadol o'r dull diwygio yng Nghymru, wedi chwarae rhan hollbwysig i sicrhau perchenogaeth gref dros bolisiau ac mae wedi helpu i arwain at bolisiau mwy cydlynol.

Er gwaethaf y cynnydd a wnaethpwyd, canfu tîm SCDE lawer o enghreifftiau lle gellid sicrhau polisiau mwy cydlynol. Un enghraifft o'r fath yw'r gwaith parhaus i ddatblygu'r fframwaith asesu, gwerthuso ac atebolrwydd nad yw'n ymddangos yn ddigon cysylltiedig â'r gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae angen gwell cydlynad hefyd rhwng y gwaith parhaus i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel y system a datblygu'r pecyn offer hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion. Gallai methu â chydlynw a chysoni'r darnau hyn o waith arwain at ddiffyg cydlynad rhwng y cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd sydd yn ei dro'n peryglu'r holl ymdrech i ddiwygio'r cwricwlwm.

Hefyd, i ddechrau nid oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng polisi YSD Cymru a meysydd polisi cysylltiedig, gan nad oedd wedi'i integreiddio'n llawn yn y naratif diwygio presennol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wedi cydnabod bod angen mwy o gydlynad gyda pholisiau eraill ac maent wedi cymryd camau i sicrhau hyn, megis integreiddio'r model YSD mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.



Hefyd, canfu tîm SCDE wahaniaethau sylweddol o ran i ba raddau, a sut, mae consortia rhanbarthol wedi ymgysylltu ag ysgolion yn eu rhanbarthau i ddosbarthu'r model a'u cynorthwyo i'w roi ar waith. Gallai parhau â gwaith y Grŵp Gweithredu YSD helpu i sicrhau cydlynad a chydweithrediad rhwng y consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill, a chwilio ar y cyd am y ffyrdd gorau o gynorthwyo ysgolion i ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. Er bod angen caniatáu rhywfaint o amrywiant rhwng rhanbarthau, un cam pwysig ymlaen fydd y bwriad i sefydlu cynllun gweithredu YSD cenedlaethol ar y cyd a fydd yn darparu ar gyfer cynlluniau gweithredu rhanbarthol.

Fodd bynnag, dylai fod gan y grŵp gweithredu swyddogaeth gliriach o gynorthwyo ymdrechion Llywodraeth Cymru i greu polisiau mwy cydlynol, gyda'r nod o wireddu'r cwricwlwm mewn ysgolion ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cydlynw a chydweithredu â phobl sy'n gweithio i sefydlu model dysgu proffesiynol cenedlaethol, datblygu pecyn offer hunanwerthuso a chynllunio datblygiad i ysgolion a gweithgorau cysylltiedig eraill.

## Cyd-destun ffafriol sefydliadau, polisïau a chymdeithas

### ▣ **Parhau i siapio, monitro ac ymateb i'r newidiadau yng nghyd-destun sefydliadau, polisïau a chymdeithasau**

Mae polisi'n fwy tebygol o gael ei roi ar waith yn llwyddiannus, neu ei wireddu, os yw'n ystyried cyd-destun y sefydliadau, y polisïau a'r gymdeithas lle mae'n cael ei roi ar waith. Yng Nghymru, mae cyd-destun sefydliadau, polisïau a chymdeithas wedi bod yn ffafriol i ddiwygio addysg ar raddfa fawr, ac mae ystod eang o randdeiliaid o bob lefel yn y system wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r broses.

Mae cynnwys ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu model YSD Cymru wedi cynorthwyo'r proffesiwn addysg i gael perchnogaeth arno. Hefyd, mae cynyddu cysondeb ac integreiddio â pholisïau eraill fel y nodwyd uchod wedi helpu i sicrhau bod YSD ar yr agenda i gonsortia rhanbarthol a chyrff llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth Addysg fel y Bwrdd Newid.

Mae'r tir ffrwythlon presennol ar gyfer diwygio hefyd yn cyfrannu tuag at barodrwydd ysgolion i ymgysylltu â model YSD Cymru. Fodd bynnag, mae rhai materion cyd-destunol y dylid eu **monitro** ac ymateb iddynt er mwyn gwireddu'r polisi YSD. Yn gyntaf, mae angen ehangu'r ddeialog gyhoeddus a gynhyrchwyd gan ganlyniadau PISA fel ei bod yn gyson ag uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd. Yn ail, dylai Cymru sicrhau bod ei threfniadau llywodraethu'n galluogi holl ysgolion Cymru i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu ac felly'n ymateb i anghenion dysgu ac anghenion eraill eu holl ddisgyblion.

#### **Yr angen i ehangu'r ddeialog gyhoeddus a gynhyrchwyd gan ganlyniadau PISA**

Cafodd y gefnogaeth eang i ddiwygio addysg yng Nghymru ei sbarduno'n wreiddiol gan ganlyniadau PISA siomedig yn 2009. Esblygodd y diwygiadau gwella ysgolion a ddeilliodd o hynny i'r broses bresennol o ddiwygio'r cwricwlwm, y mae polisi YSD Cymru yn rhan ohoni. Mae'r



diwygio hwn yn parhau ac mae'n siŵr na fydd y canlyniadau i'w gweld am dipyn o amser.

Mynegwyd pryderon wrth dîm SCDE, pe na bai canlyniadau PISA 2018 yn dangos digon o welliant o ran perfformiad disgyblion, y gallai rhai ddefnyddio hyn fel tystiolaeth yn erbyn diwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, byddai'n rhy gynnar i lunio casgliadau o'r fath oherwydd ni fydd y cwricwlwm cyfan ar gael tan fis Ebrill 2019, felly ni fyddai canlyniadau PISA 2018 yn adlewyrchu unrhyw newidiadau eto.

Hefyd, dylid rhoi sylw i ehangu'r ddeialog gyhoeddus am berfformiad disgyblion i'w chysoni ag uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd. Gellid ategu cymariaethau rhyngwladol o lythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth â dadansoddiad manylach o'r data mewn meysydd megis ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad disgyblion, sgiliau datrys problemau ar y cyd, cymhelliant disgyblion ar gyfer dysgu a lles. Mae'r rhain yn ganolog i uchelgeisiau Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd, ond yn aml cânt eu hanghofio yn y ddeialog gyhoeddus pan ryddheir canlyniadau PISA yng Nghymru. Gallai cydnabyddiaeth gliriach o'r sgiliau hyn

gan Lywodraeth Cymru ac Estyn wrth iddynt fonitro ar lefel y system ategu trafodaeth

**Yr angen i optimeiddio trefniadau llywodraethu i alluogi pob ysgol yng Nghymru i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu**

Mae'r broses o ysgogi model YSD Cymru wedi'i llunio â'r trefniadau sefydliadol presennol ar waith. Mae cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau yn y system addysg dair haen wedi cyfrannu at ei ddatblygu, a byddant yn chwarae rhan allweddol i helpu ysgolion i drawsnewid ac i ddylanwadu ar sut defnyddir model YSD Cymru yn y dyfodol i ategu'r ymdrech fwy cyffredinol i ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae pryder y gallai'r model llywodraethu ysgolion amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan lawer o'r 22 awdurdod lleol, yn enwedig y rhai llai, ddiffyg gallu dynol ac ariannol i ymateb i'r cynnydd yn y galw am gymorth i'r grŵp hwn o ddisgyblion.

Bwriad y system newydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yw ymateb i'r her hon. Mae Cymru wedi datblygu Rhaglen

ehangach am ddysg a lles disgyblion yng Nghymru.

Trawsnewid ADY i helpu i wireddu hyn. Mae hyn yn cynnwys sefydlu pum swydd newydd, yr "arweinwyr trawsnewid ADY". Mae pedwar o'r rhain yn gweithredu ar lefel ranbarthol ac yn gyfrifol am gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a byrddau iechyd lleol i baratoi ar gyfer y system newydd a'i rhoi ar waith. Dylai Llywodraeth Cymru – a hyn yw ei bwriad – fonitro'n ofalus y cynnydd a wneir i ddatblygu'r cydweithredu traws-sector a'r arferion gwaith amlasiantaethol sy'n hanfodol i lwyddiant y system ADY newydd. Os nad oes digon o gynnydd yn cael ei wneud, dylid cymryd camau pellach. I'r perwyl hwn, gall fod angen gwneud mwy i optimeiddio'r strwythur llywodraethu.

Ail rwystr posibl i'r ymdrech i ddiwygio'r cwricwlwm yw'r posibilrwydd o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yng Nghymru. Os gwneir y penderfyniad hwn i leihau nifer yr awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried oedi cyn gweithredu i helpu i sicrhau ei bod yn dal i ganolbwyntio ei holl ymdrechion ar ddod â'r cwricwlwm newydd yn fyw mewn ysgolion ledled Cymru.

#### ARGYMHELLION I WIREDDU YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

- **Datblygu naratif hawdd ei ddeall sy'n esbonio sut gall model YSD Cymru arwain datblygiad ysgolion, ffurfio rhan integredig o ddiwygio'r cwricwlwm ac ymwneud â pholisïau eraill.** Dylid rhannu'r naratif hwn yn eang mewn gwahanol ffyrdd.
- **Parhau i gryfhau gallu consortia ranbarthol i gefnogi ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu.** Dylai'r consortia:
  - **Barhau â'r ymdrechion i roi mwy o gefnogaeth i ysgolion a hybu diwylliant o ddysgu,** gyda llai o bwyslais ar herio ysgolion a mwy o sylw i'r sector uwchradd.
  - **Parhau i ehangu a dyfnhau cydweithrediad a chydlynid rhwng consortia.**
  - **Parhau i wella'r prosesau o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i ysgolion.**

- **Dylai Estyn barhau i fonitro'r cynnydd y mae'r consortia yn ei wneud o ran gwella a symleiddio eu gwasanaethau i ysgolion.** Hefyd, dylai Estyn barhau i fonitro awdurdodau lleol.
- **Gwella'r cydweithio a'r cysondeb rhwng y gwahanol linyddau gwaith o ran datblygu asesu, gwerthuso a'r cwricwlwm.**
- **Dylai'r Grŵp Gweithredu YSD barhau i gynorthwyo i wireddu polisi YSD Cymru, gan geisio sicrhau polisiâu cydlynol iawn.** Dylai gydlynw a chydweithio â gweithgorau eraill, yn bennaf ym meysydd dysgu proffesiynol a hunanwerthuso a chynllunio datblygiad ysgolion, a chydag asiantaethau fel Cyngor y Gweithlu Addysg.
- **Ehangu'r ddeialog gyhoeddus a gynhyrchwyd gan ganlyniadau PISA fel ei bod yn gyson ag uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd.** Gallai cydnabyddiaeth fwy penodol yn y gwaith monitro ar lefel y system i sgiliau megis datrys problemau ar y cyd, cymhelliant disgyblion i ddysgu a'u lles, gefnogi trafodaeth adeiladol ac ehangach ar ddysg a lles disgyblion yng Nghymru.
- **Parhau i fonitro effeithiolrwydd newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn ddiweddar a newidiadau posibl yn y dyfodol i strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn gallu datblygu fel sefydliad sy'n dysgu a gwireddu uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd i bob disgybl.**

## ▣Yr angen am gynllun gweithredu cydlynol

Ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, roedd gwaith wedi'i ddechrau i ddatblygu cynllun gweithredu YSD gyda'r nod o ffurfio rhan annatod o ymdrech ehangach i ddiwygio. Mae llawer o weithgareddau wedi digwydd eisoes, wedi'u cynllunio neu'n digwydd ar hyn o bryd, a ddylai fod yn rhan o'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: cynnwys yr amcan i ddatblygu pob ysgol a rhannau eraill o'r system i fod yn sefydliadau sy'n dysgu yn y cynllun gweithredu addysgol strategol, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Medi 2017); llunio model YSD Cymru ar y cyd, a'i ryddhau (Tachwedd 2017); integreiddio'r model YSD mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth (hydref 2018); y gwaith parhaus o ddatblygu'r pecyn offer

hunanwerthuso a chynllunio datblygiad i ysgolion y mae'r model yn debygol o gael ei integreiddio ynddo (dechreuwyd ym mis Mai 2018); parhau i ddatblygu arolwg hunanasesu ar-lein YSD y bydd staff ysgolion yn gallu ei ddefnyddio (lansiad wedi'i drefnu ym mis Tachwedd 2018); ac ymdrechion parhaus gan Lywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau haen ganol i ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

Mae tîm SCDE yn cytuno bod y rhain i gyd yn weithgareddau pwysig i gynorthwyo ysgolion â'u hymdrechion i ddatblygu. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn wedi canfod llawer o faterion eraill sy'n galw am weithredu pellach, y darperir argymhellion ar eu cyfer, ac a ddylai fod yn sail i ddatblygu'r cynllun gweithredu YSD.

## GWIREDDU YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

- **Datblygu a sefydlu cynllun gweithredu YSD cenedlaethol i rymuso ysgolion ledled Cymru i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu.** Dylai'r Grŵp Gweithredu YSD arwain y broses o ddatblygu cynllun gweithredu YSD, monitro cynnydd tuag at wireddu polisi YSD Cymru, a sicrhau y cymerir camau pellach pan welir bod eu hangen. Dylai'r cynllun gweithredu cenedlaethol – a allai'n rhannol gynnwys pedwar cynllun gweithredu rhanbarthol – sicrhau bod *pob* ysgol yn cael cyfle i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu ac, yn y pen draw, i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Dylid rhoi sylw i'r canlynol hefyd:
  - **Ni ddylai pennu amcanion a monitro cynnydd fod yn rhywbeth sy'n rhoi gormod yn y fantol i ysgolion.** Un opsiwn posibl fyddai cloddio'r data dienw a gesglir drwy'r arolwg YSD ar-lein yn rheolaidd. Gallai ymchwil ansoddol ategu'r dadansoddiadau, sydd wedi'u hanelu at archwilio cynnydd, gan gynnwys nodi arferion da y dylid eu rhannu'n eang, heriau a meysydd i'w gwella eto.
  - **Dyrannu tasgau.** Mae'r consortia rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol drwy gefnogi ysgolion ar eu teithiau i newid ac arloesi. Fodd bynnag, fel y nodwyd drwy'r adroddiad hwn i gyd, gallai sefydliadau addysg uwch a phartïon eraill wneud eu rhan i ategu seilwaith y system.
  - **Bydd angen blaenoriaethu er mwyn amseru a dilyniannu camau gweithredu.** Drwy gymryd y camau gweithredu yn raddol, gellir canolbwyntio ymdrechion, gan ystyried gallu'r ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu a dod â'r cwricwlwm newydd yn fyw. Un cam gweithredu y mae angen rhoi sylw iddo ar unwaith, fel yr argymhellwyd uchod, yw egluro'r cyfnod pontio tuag at y drefn newydd o gynnal hunanwerthusiadau ysgolion a gwerthusiadau Estyn.
  - **Strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg.** Cam cyntaf pwysig, fel yr argymhellwyd uchod, fydd datblygu naratif dealladwy a'i rannu'n eang i esbonio sut mae model YSD Cymru yn rhan integredig o ddiwygio'r cwricwlwm ac yn ymwneud â pholisïau eraill. Mae casglu a rhannu arferion da mewn modd systematig yn faes arall i'w ystyried.

## Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG A SGILIAU



Mae Cyfarwyddiaeth Addysg a Sgiliau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn helpu gwledydd i adnabod a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hyrwyddo swyddi gwell a bywydau gwell, yn creu ffyniant ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Rydym ni'n annog gwledydd i gymharu eu profiadau ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac rydym ni wrth eu hochr yn y broses anodd o weithredu polisïau.

Mae ein metrigau byd-eang yn helpu llunwyr polisïau i weld beth sy'n bosib ym myd addysg ac i bennu uchelgais ystyrion o ran nodau mae modd eu mesur sy'n cael eu cyflawni gan arweinwyr addysg y byd. Mae arolygon ein Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn dangos faint mae systemau ysgolion yn amrywio o ran eu cynnydd i arfogi dysgwyr â'r sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau creadigol sydd mor hanfodol ar adeg pan fo'r mathau o bethau sy'n hawdd eu haddysgu ac yn hawdd eu profi y rhai hawddaf i'w digideiddio,

awtomeiddio a'u trefnu drwy contract allanol hefyd. Drwy'r Arolwg Addysgu a Dysgu Rhyngwladol (TALIS), rydym ni'n ceisio cryfhau'r proffesiwn dysgu a dyfeisio amgylcheddau dysgu mwy arloesol gydag addysgeg yr 21 ganrif a fydd yn siapio dysgwyr yr 21 ganrif.

Mae ein dadansoddiad manwl o bolisïau a'n cyngor yn helpu gwledydd i ddeall i ba raddau mae eu system addysg genedlaethol yn llwyddo o'i chymharu ag eraill, a dysgu pa bolisïau ac arferion sydd wedi gwneud gwahaniaeth i'r rhai sy'n perfformio'n dda ac yn ddiwygwyr llwyddiannus ym myd addysg.

Hefyd, rydym ni'n cymryd rhan mewn deialog polisïau cenedlaethol i helpu llunwyr polisïau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiwygio a chael mwy o gytundeb ymysg rhanddeiliaid. Gan gydnabod bod gwelliannau addysgol yn fwy na dim ond deddfwriaeth a syniadau newydd, rydym ni'n cefnogi llunwyr polisïau drwy'r daith o newidiadau i wella deilliannau dysgu ac addysgu i bawb.

Ein huchelgais yw helpu pob dysgwr, pob rhiant, pob athro/athrawes a phob lluniwr polisïau i weld bod unrhyw beth yn bosib i wella addysg – a bod gwella addysg yn allwedd i sicrhau cymdeithas decach a gwell.

**Ysgrifennwch atom yn**

Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Sgiliau  
OECD  
2, rue André Pascal  
75 775 Paris Cedex 16  
FFRAINC  
[edu.contact@oecd.org](mailto:edu.contact@oecd.org)

**Evch i'n gwefan**

[www.oecd.org/education](http://www.oecd.org/education)

**Cymerwch gip ar ein data ar addysg a sgiliau**

[gpseducation.oecd.org](http://gpseducation.oecd.org)

**Darllenwch ein llyfrau ar-lein**

[www.oecd-ilibrary.org/education/books](http://www.oecd-ilibrary.org/education/books)

**Tanysgrifiwch i'n llyfrgell ar-lein**

[www.oecd-ilibrary.org](http://www.oecd-ilibrary.org)

**Archebwch ein cyhoeddiadau**

Siop lyfrau ar-lein OECD:  
[www.oecd.org/bookshop](http://www.oecd.org/bookshop)

**Cysylltwch â ni ar**

Education and Skills Today:  
Global perspectives on Education  
[oecdeducationtoday.blogspot.fr](http://oecdeducationtoday.blogspot.fr)

 @OECEduSkills

**Tanysgrifiwch i dderbyn ein**

cylchlythyr  
[oe.cd/edunewsletter](http://oe.cd/edunewsletter)



*Caiff y gwaith hwn ei gyhoeddi yn unol â chyfrifoldeb Ysgrifennydd Cyffredinol OECD. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir a'r dadleuon a ddefnyddir yma o reidrwydd yn adlewyrchu barn swyddogol y gwledydd sy'n aelod o OECD. Nid yw'r ddogfen hon, yn ogystal ag unrhyw ddata ac unrhyw fap sydd wedi'i gynnwys yma, yn lleihau effaith statws neu sofraniaeth unrhyw diriogaeth, ffiniau a therfynau rhyngwladol a bennir ac enw unrhyw diriogaeth, dinas neu ardal. Mae'r data ystadegol ar gyfer Israel wedi'u cyflenwi gan awdurdodau perthnasol Israel ac yn unol â'u cyfrifoldeb nhw. Nid yw defnyddio data o'r fath gan OECD yn lleihau effaith statws aneddiadau Ucheldiroedd Golan, Dwyrain Jerwsalem ac aneddiadau Israel yn y Lan Orllewinol o dan gyfraith rhyngwladol.*